Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

National Assembly for Wales
Standards of Conduct Committee

Elin Jones AC, y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

23 Hydref 2018

**Adroddiad Blynyddol Grwpiau Trawsbleidiol 2017-18**

Annwyl Lywydd,

Yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2018, trafododd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad Adroddiad Blynyddol 2017-18 ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf fod cadw at reolau Grwpiau Trawsbleidiol (y rheolau) yn bwysig iawn er mwyn cynnal uniondeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, rydym yn argymell y camau a ganlyn ar gyfer y Grwpiau Trawsbleidiol nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau:

**Categori B** (Grwpiau sy'n cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol ond sy'n hwyr wrth wneud hynny): Mae'r Pwyllgor yn argymell bod nodyn yn cael ei anfon at yr holl grwpiau hyn i'w hatgoffa bod angen cydymffurfio â'r rheolau a thynnu sylw at y meysydd lle nad ydynt wedi cyflwyno'r wybodaeth erbyn yr amser disgwyliedig.

**Categori C** (Grwpiau nad ydynt wedi rhoi'r manylion sy'n ofynnol yn ôl y rheolau): Mae'r Pwyllgor yn argymell eich bod yn ysgrifennu at yr holl grwpiau hyn i ofyn iddynt gydymffurfio â'r gofynion nas bodlonwyd dan y rheolau o fewn pedair wythnos waith neu byddant yn cael eu datgofrestru yn unol â'r rheolau. Rydym hefyd yn argymell, pe bai unrhyw un o'r grwpiau hyn yn y categori hwn eto yn Adroddiad Blynyddol 2018-19, y dylid ei ddatgofrestru fel mater o drefn.

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol a ganlyn wedi bod yng **Nghategori C**, am yr ail flwyddyn yn olynol, ac mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ei ddatgofrestru ar unwaith:

- Tadau a Thadolaeth (Mark Isherwood)

Byddem hefyd yn argymell ysgrifennu at gadeiryddion yr holl Grwpiau Trawsbleidiol, gan atodi'r canlyniadau monitro a'u hatgoffa o'r rheolau a'r cyfrifoldebau sy'n

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSafonau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddSafonau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddStandards@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddStandards
0300 200 6565

llywodraethu Grwpiau Trawsbleidiol, yn ogystal â phwysleisio bod tri grŵp wedi'u datgofrestru o ganlyniad i fethu cydymffurfio â'r gofynion ddwy flynedd yn olynol. Fel gyda'n trafodaeth o Adroddiad Blynyddol 2016-17, rydym hefyd yn argymell, yn fwy cyffredinol, y dylid cyhoeddi adroddiad blynyddol grwpiau trawsbleidiol ar wefan y Cynulliad gan y bydd hyn yn helpu gyda thryloywder ac rydym yn argymell anfon nodyn bob blwyddyn yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant
**Cadeirydd**